**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## PANEL GWEITHREDOL

**19eg Tachwedd 2012**

**ASESIAD GWELLA**

**Adroddiad gan Lisa Williams, Swyddfa Archwilio Cymru**

**Diben yr Adroddiad**

1 I gyflwyno'r llythyr Asesiad Gwella i Aelodau.

**Cefndir**

2 Yn dilyn cyflwyniad y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd ag Asesiad Gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru.

**Gwybodaeth**

3 Mae'r llythyr atodol gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru yn crynhoi:

- cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'i rwymedigaethau statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus;
- cynnydd yr Awdurdod yn y meysydd i'w gwella a'r argymhellion a nodwyd yn flaenorol;
- sylwebaeth fer ar faterion perthnasol sydd efallai wedi dod i'r amlwg ers yr adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Awdurdod yn ymdrin â'r heriau ariannol; a
- diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r gwaith Asesiad Gwella.

4 Mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

5 Mae dau gynnig pellach ar gyfer gwella wedi’u rhestru yn y llythyr, a’r rheiny yw i: barhau i ddatblygu prosesau corfforaethol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygu ffyrdd o ddefnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a hysbysu'r cyhoedd am sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar yr hyn a wna'r Awdurdod.

**Argymhelliad**

6 Fod Aelodau’n nodi cynnwys y llythyr.